



Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Ffridd Y Llyn

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg

Mae Ysgol Ffridd Y Llyn yn rhan o ffederasiwn Cysgod Y Foel. Mae'r pennaeth mewn gofal yn cael ei chefnogi gan bennaeth safle yn Ysgol Ffridd Y Llyn a phennaeth safle yn Ysgol Bro Tryweryn.

Mae'r pennaeth mewn gofal wedi creu gweledigaeth glir a chadarn sydd wedi ei seilio ar sicrhau bod lles disgyblion a datblygu eu medrau yn flaenllaw yng ngwaith a bywyd ysgolion y ffederasiwn. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Maent yn ymweld â'r ysgolion yn rheolaidd gan gynnal teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion a chynnal trafodaethau gyda grwpiau o ddisgyblion a staff. Er hyn, nid yw aelodau'r corff llywodraethol bob amser yn gweithredu'n ddigon strategol wrth wireddu blaenoriaethau gwella ysgolion y ffederasiwn.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn. Maent yn dangos parch at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd o fewn yr ardaloedd dysgu ac yn barod i gyfrannu at drafodaethau dosbarth, gan rannu eu syniadau mewn modd aeddfed a synhwyrol. Pan gaiff ddisgyblion gyfle, mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n dda ac yn ymgysylltu'n gydwybodol wrth ymateb i heriau yn eu gwaith. Er hyn, nid yw lefel yr her bob amser yn briodol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau hyd orau eu gallu.

Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae perthynas waith gynhyrchiol iawn yn bodoli rhyngddynt. Mae staff ar draws ysgolion y ffederasiwn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd er mwyn rhannu syniadau, cynllunio gweithgareddau addysgiadol diddorol a rhannu arferion da. Maent yn ystyried barn a safbwyntiau'r disgyblion yn bwrpasol wrth gynllunio gweithgareddau dysgu ar eu cyfer. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn barod i ymgymryd a'r ystod o brofiadau ysgogol a difyr sy'n cael eu darparu ar eu cyfer. Mae'r staff yn cymryd rhan flaenllaw yn y broses hunanwella sydd yn effeithiol wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o safon y ddarpariaeth a'r cynnydd ym medrau'r disgyblion. Er hyn, nid yw'r arweinwyr o fewn yr ysgolion wedi cael digon o amser i gydweithio er mwyn datblygu eu rôl a gweithredu'n llawn ar flaenoriaethau gwella'r ysgolion.

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn herio'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu
- A2 Cryfhau effeithiolrwydd arweinwyr, gan gynnwys y corff llywodraethol, er mwyn iddynt gydweithredu ar draws y ffederasiwn yn fwy strategol er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau gwella

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.



Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Ffridd Y Llyn
Awdurdod lleol	Cyngor Gwynedd
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	44
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	41
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	0
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%)	15.8%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%)	20%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	73.2%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	Ebrill 2023
Dyddiad dechrau'r arolygiad	22/01/2024

Ⓜ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.